## Cwynion

Os oes gennych chi gŵyn am y gwasanaeth a gewch, siaradwch â'ch swyddog cyswllt dioddefwyr neu reolwr y swyddog, a fydd yn ceisio helpu. Os na fydd hyn yn gweithio neu os nad ydych chi eisiau siarad â'r rheolwr, cewch gwyno ar bapur i'r Cyfarwyddwr yn eich rhanbarth Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.

Os na all y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ddatrys eich cwyn, bydd y cam apelio terfynol drwy eich AS lleol, a fydd yn gallu codi cwyn ar eich rhan gyda'r Ombwdsmon Seneddol.



## Rhifau defnyddiol

Llinell Gymorth i Ddioddefwyr, Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr:

**0845 7585 112**

Ar gyfer dioddefwyr sydd wedi cael cyswllt dieisiau gan garcharor neu sy'n poeni bod carcharor yn cael ei ryddhau o'r carchar.

Llinell Gymorth Genedlaethol Cymorth i Ddioddefwyr:

**0845 30 30 900**

**www.victimsupport.org.uk**

Y Samariaid:


**08457 90 90 90**

NPS03 - (05.14)

Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

# Y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr

Beth y gallwch ei ddisgwyl



NPS03

# Beth yw'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr?

Mae'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr yn rhoi gwybodaeth i ddioddefwyr troseddwyr difrifol a threisgar, lle bo'r troseddwr wedi'i ddedfrydu i 12 mis neu fwy yn y carchar. Rydym hefyd yn cynnig y gwasanaeth pan fydd y troseddwr yn cael ei gadw'n gaeth fel claf iechyd meddwl.

Rydym yn rhoi gwybodaeth i ddioddefwyr troseddau ac i rieni, gwarcheidwaid neu ofalwyr plant sy'n ddioddefwyr. Pan fo'r trosedd wedi arwain at farwolaeth y dioddefwr, rhoddir gwybodaeth i'r teulu agos.

Mae gennych hawl i gael gwybodaeth a mynegi unrhyw bryderon am eich diogelwch. Bydd ein staff cyswllt dioddefwyr arbenigol yn eich trin â pharch a sensitifrwydd bob amser. Byddant yn rhoi gwybodaeth i chi ac yn esbonio sut mae modd i'ch llais gael ei glywed.

## Beth all y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr ei wneud i mi?

### Os byddwch chi'n dewis manteisio ar y gwasanaeth byddwn yn:

- dweud wrthych chi am ddedfryd y troseddwr, a beth mae hynny'n ei olygu
- rhoi'r newyddion diweddaraf i chi am newidiadau allweddol yn ei ddedfryd, a allai effeithio arnoch chi (er enghraifft, os bydd troseddwr yn cael ei symud i garchar agored)
- gofyn i chi am unrhyw bryderon sydd gennych chi pan roddir ystyriaeth i ryddhau'r troseddwr – gallai hyn gynnwys cyfnodau byr allan o'r carchar ar drwydded dros dro
- gwneud yn siŵr y rhoddir ystyriaeth i'ch barn pan fydd yr amodau'n cael eu nodi ar gyfer rhyddhau'r troseddwr ar drwydded (er enghraifft, gallai hyn gynnwys cais iddo beidio â chysylltu â chi neu gais am ardal waharddedig sy'n gwahardd y troseddwyr rhag mynd i'r llefydd lle rydych chi'n byw neu'n gweithio)
- dweud wrthych chi pa fis y bydd y troseddwr yn cael ei ryddhau ac am unrhyw amodau o'i drwydded a allai effeithio arnoch chi neu'ch helpu chi
- dweud wrthych chi pan fydd trwydded y troseddwr yn dod i ben, neu os bydd yn cael ei alw'n ôl i'r carchar
- dweud wrthych chi sut gallwch wneud Datganiad Personol Dioddefwr i'r Bwrdd Parôl

## Eich cyswllt â'ch swyddog cyswllt dioddefwr

Bydd yr Heddlu neu'r Uned Gofal Tystion yn anfon eich manylion ymlaen at y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr, oni bai nad ydych am iddynt wneud hynny.

Byddwch yn cael llythyr gan eich swyddog cyswllt dioddefwyr yn cyflwyno'r gwasanaeth i chi ac yn gofyn a hoffech chi gael cyswllt. Mae modd trefnu cyfarfod yn eich cartref neu rywle arall. Gallwn gysylltu â chi dros y ffôn neu drwy lythyr hefyd.

Bydd eich swyddog cyswllt dioddefwyr yn esbonio beth yw'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr a beth i'w ddisgwyl. Bydd yn gwrando ar eich pryderon ac yn gwneud ei orau i ateb eich cwestiynau. Hefyd, gall roi gwybod i chi am wasanaethau lleol eraill a allai eich helpu chi.

Bydd eich swyddog cyswllt dioddefwyr yn cadw mewn cysylltiad â chi drwy gydol dedfryd y troseddwr os ydych chi'n dymuno. Hefyd, gallwch gysylltu â'r swyddog i holi cwestiynau neu i drafod eich pryderon.

Mae'n bosib y byddwch yn penderfynu nad ydych chi'n dymuno cadw mewn cysylltiad. Os felly, byddwn yn gwneud yn siŵr eich bod yn gwybod sut mae cysylltu â ni petaech yn newid eich meddwl yn y dyfodol.

›